

CYFLWYNIAD

Mae seidr yn dod yn fwy poblogaidd a chynhyrchir y rhan fwyaf ohono yng ngorllewin y DU. Mae afalau seidr yn gnwd a allai wneud yn dda mewn sawl rhan o Gymru ac mae'r nodiadau hyn ar gyfer tyfwyr sy'n ystyried sefydlu perllan seidr.

Gwneir seidr o afalau. Gellyg a ddefnyddir i wneud Perry. Ar gyfer seidr, defnyddir cyfuniad o afalau seidr arbenigol fel arfer, er bod seidr math unigol ar gael hefyd. Gellir defnyddio afalau bwyta a choginio arferol ond er mwyn gwneud seidr da dylai o leiaf 25% o'r sudd ddod o afalau seidr sy'n cynnwys crynodiadau uwch o dannin.

Mae yna gannoedd o fathau gwahanol o afalau seidr lleol. Arferai llawer o ffermydd wneud seidr yn y gorffennol a gellir dod o hyd i berllannau gweddilliol o hyd. Efallai fod y perllannau hyn yn ddigon da i luosogi ohonynt ac efallai hefyd y bydd modd gofyn am ffrwythau dros ben neu eu prynu i'ch helpu i gychwyn arni pan fydd eich coed eich hun yn datblygu. Ar ôl dod o hyd i goeden leol dda, dylid ei himpio er mwyn creu digon o goed ar gyfer perllan newydd.

Dabinett a Michelin yw'r prif afalau seidr masnachol ond mae angen cynnal ymchwil i ddod o hyd i fathau lleol addas. Y gallu i wrthsefyll y claf a chancro yw'r nodweddion mwyaf gwerthfawr fel arfer, yn enwedig mewn ardaloedd gwlypach. Chwiliwch am gyflenwyr yn eich ardal, ond gellir archebu coed oddi wrth y canlynol, er ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid iddynt hwy eu harchebu o rywle arall:

- F P Mathews enquiries@fpmathews.co.uk cysylltwch â Nick Dunn
- Adams Apples www.talatonplants.co.uk cysylltwch ag Adam Powell
- Dolau Hirion <http://users.tinyonline.co.uk/applewise>

Mae yna Gymdeithas Seidr a Perry ffyniannus yng Nghymru: www.welshcider.co.uk. Mae'n werth ymuno gan ei bod yn cynnig cyngor ac yn cynnal digwyddiadau yn cynnwys Gŵyl Seidr Rhyngwladol.

DWYSEDD PLANNU

Ceisiwch blannu 606 o goed i bob hectar [gyda gofod 5.5metr x 3metr rhyngddynt]. Mae'r dwysedd plannu'n is mewn perllannau seidr traddodiadol, sef rhyw 300 o goed i bob hectar.

CYNHYRCHU SEIDR

Rhaid ufuddhau i reolau a rheoliadau wrth wneud seidr. Dylech holi adran Tollau EM ynglŷn â faint y gallwch ei wneud heb orfod talu Toll Ecseis ac ynglŷn â'r gweithdrefnau cofrestru.

Fel arfer defnyddir 25-30% o afalau seidr i wneud seidr, a gall y gweddill fod yn ffrwythau wedi'u casglu h.y. afalau bwyta a choginio isradd, ond rhaid i'r ffrwythau fod yn iach.

Ceir dwy broses wrth wneud seidr: malu a gwasgu. Yn gyntaf, caiff yr afalau eu "malu", sy'n golygu eu torri'n fân. Yna cânt eu gwasgu er mwyn tynnu'r sudd. Yn ystod y cam yma o'r broses mae sudd afal a seidr yn union yr un fath. Pe byddai'r cynnyrch terfynol angenrheidiol yn sudd afal, câi ei basteureiddio yn awr, ond gadewir i seidr eplesu. Fel arfer bydd eplesiad yn digwydd mewn casgenni gwirod a bydd yn parhau nes iddo orffen



Photo: D Frost

Ffig 1: Coeden afalau Claygate Pearmain



Photo: D Frost

Ffig 2: Perllan Afalau

eplesu. Mae hyn yn cynhyrchu seidr llonydd traddodiadol. Bydd y burum gwyllt ar y ffrwyth yn eplesu'n naturiol, heb i chi orfod ychwanegu dim.

Mae offer syml neu fwy cywrain ar gael i falu ac i wasgu. Gellwch ddyfeisio eich offer eich hun ar gyfer hyn, ond mae offer da yn arbed amser os ydych yn cynhyrchu ar raddfa fwy, a gall roi gwell cynnyrch. Mae amrywiaeth da gan Vigo Cyf, gweler www.vigold.com

AFALAU SEIDR – CANLLAW BRAS I'R COSTAU

Mae tabl 1 yn rhoi syniad o'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu a rheoli perllan seidr. Costau ar gyfer system berllan seidr fodern yw'r rhain. Ffigyrau fesul hectar yw'r rhai a nodir. Nid ydynt yn cynnwys costau cyfle, h.y. y posibilrwydd o golli cnydau eraill wrth sefydlu'r berllan.

Tabl 1: Costau sefydlu dangosol a chnydau disgwylidig perllannau seidr

BLWYDDYN	COST	COST WIRIONEDDOL (£)	CNWD (tunnell/ha)
1	Coed afalau seidr 606 @ £4.50	£2727.00	
	Polion 606 @ £0.60	£363.60	
	Sgriniau Cwningod 606 @ £0.50	£303.00	
	Gwrtaith 500kg @ £150 / tunnell	£75.00	
	Rheoli Chwyn (amcangyfrif)	£200.00	
	Rheoli Pla a Chlefydau (amcangyfrif)	£350.00	0
2	Costau Cynnal a Chadw Blynyddol	£600.00	0
3	Costau Cynnal a Chadw Blynyddol	£600.00	1
4	Costau Cynnal a Chadw Blynyddol	£600.00	3
5	Costau Cynnal a Chadw Blynyddol	£600.00	4
6	Costau Cynnal a Chadw Blynyddol	£600.00	6
7	Costau Cynnal a Chadw Blynyddol	£600.00	10
8 ymlaen	Costau Cynnal a Chadw Blynyddol	£600.00	15

Nodiadau:

- O flwyddyn 8, mae'n debyg y bydd y coed yn dechrau dwyn ffrwyth bob yn eifflwydd. Gall y cnwd amrywio o 30 tunnell / ha un flwyddyn i 15 tunnell / ha y nesaf.
- Gallwch ddisgwyl cnwd blynyddol o 20 tunnell / ha ar gyfartaledd ar safle da, a 12 tunnell / ha ar safle salach.
- Mae 1 dunnell o afalau yn cynhyrchu 600 litr o seidr gydag offer cyffredin.
- LLAFUR ANGENRHEIDIOL

Nid yw'r costau uchod yn cynnwys llafur. Fel canllaw, bydd angen 125awr / ha ym mlwyddyn un; 45awr / ha ym mlynnyddoedd dau, tri a phedwar, a 105awr / ha ar ôl hynny i reoli a chynnal a chadw'r berllan.

Bydd casglu'r ffrwythau yn costio tua 5c / kg â llaw (£1,000 / ha ar safle da). Bydd casglu â pheiriant yn costio tua £350 / ha ar yr amod bod peiriant ar gael yn yr ardal.

Bydd angen neilltuo amser ychwanegol ar gyfer y broses gynhyrchu os ydych yn gwneud y seidr ar y fferm.

MARCHNATA

Mae pris seidr a werthir wrth lidiart y fferm yn amrywio o £1.00 - £ 2.00 y litr. Mae'n siŵr fod y prisiau ar yr ochr uwch yng Nghymru yn enwedig os caiff ei farchnata'n dda, trwy gynnal Dyddiau Agored a digwyddiadau hyrwyddo eraill, er enghraifft. Gall cynnwys y cyhoedd yn y broses gynhyrchu fod yn gymorth amhrisiadwy i werthiant. Cynhyrchu cynnyrch o safon yw'r allwedd i lwyddiant, a gwneud yn siŵr fod eich cwsmeriaid yn gwybod amdano.

Mae cynhyrchwyr masnachol yn talu rhyw £80 / tunnell am afalau a gludir i Henffordd, ond dim ond os ydynt yn brin o ffrwythau.